



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – Taflen Wybodaeth

## Cymdeithasau Trigolion Cymwys

Hydref 2014





Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhan o gyfres yn ymdrin â hawliau a rhwymedigaethau perchenogion cartrefi symudol a pherchnogion safleoedd yng Nghymru.

Mae'n rhoi gwybodaeth sylfaenol i berchnogion cartrefi symudol ynglŷn â Chymdeithasau Trigolion Cymwys o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn rhoi dehongliad awdurdodol o'r gyfraith; y llysoedd yn unig a all wneud hynny. Nid yw ychwaith yn cwmpasu pob achos. Os oes angen cyngor neu wybodaeth ychwanegol ynglŷn â hawliau neu rwymedigaethau cyfreithiol, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth neu â chyfreithiwr.

## Cyflwyniad

Nid yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i swyddogaeth bresennol cymdeithasau trigolion cymwys ar safleoedd ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â rheolau penodol. Mae Deddf 2013, fodd bynnag, yn ehangu swyddogaeth yr awdurdod lleol drwy nodi mai'r awdurdod sy'n cydnabod statws cymdeithas trigolion, yn hytrach na pherchennog y safle fel a oedd yn wir cyn Deddf 2013.

Rhaid i gymdeithas trigolion fodloni meini prawf perthnasol i gael ei hystyried yn Gymdeithas Trigolion Gymwys.

Rhaid i berchennog y safle ymgynghori â Chymdeithasau Trigolion Cymwys yn ogystal â thrigolion unigol nad ydynt yn aelodau o Gymdeithas, ar faterion penodol ynglŷn ag unrhyw wariant ar welliannau y mae perchennog y safle yn dymuno iddynt gael eu hystyried wrth adolygu ffi'r llain.

## Ffurio Cymdeithas Trigolion Gymwys

Pa feini prawf y mae angen eu bodloni er mwyn i gymdeithas trigolion fod yn Gymdeithas Trigolion Gymwys?

Mae'r meini prawf cyfreithiol ar gyfer bod yn Gymdeithas Trigolion Gymwys fel a ganlyn:

- mae'n rhaid i'r gymdeithas gynrychioli perchnogion y cartrefi symudol yn y safle penodol hwnnw
- bydd o leiaf 50% o berchenogion y cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas. Wrth gyfrifo canran y perchnogion cartrefi symudol, ystyrir bod gan bob cartref un preswlydd
- mae'n rhaid i'r gymdeithas fod yn annibynnol ar berchennog y safle, ac ni chaniateir iddo ef, nac unrhyw asiant neu weithiwr cyflogedig iddo, fod yn aelod o'r gymdeithas
- mae aelodaeth yn agored i bawb sy'n berchen ar gartref symudol ar y safle hwnnw, heblaw am berchennog y safle neu unrhyw asiant neu weithiwr cyflogedig iddo
- mae'n rhaid i'w rheolau a'i chyfansoddiad fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a rhaid iddi gadw rhestr o'i haelodau
- mae'n rhaid bod gan y gymdeithas Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd sy'n cael eu hethol gan yr aelodau ac o'u plith
- gwneir penderfyniadau trwy bleidleisio, heblaw am benderfyniadau gweinyddol a wneir gan y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Thrysorydd gan weithredu yn rhinwedd eu swyddogaethau swyddogol. Mewn

unrhyw etholiad, un bleidlais yn unig y ceir ei chaniatáu i bob cartref symudol

- nid yw cymdeithas yn Gymdeithas Trigolion Gymwys heblaw bod rhestr gyfredol o aelodau wedi ei rhoi i'r awdurdod lleol y mae'r safle wedi ei leoli yn ei ardal
- pan fydd copi o'r rhestr o aelodau wedi ei rhoi i'r awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod o leiaf 50% o drigolion y cartrefi symudol yn y safle yn aelodau o'r gymdeithas a rhaid iddo ysgrifennu at y gymdeithas a pherchennog y safle i gadarnhau ei fod yn fodlon
- rhaid i gymdeithas gyflwyno rhestr gyfredol o'i haelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl unrhyw newidiadau i'r aelodaeth
- pe byddai'r aelodaeth yn gostwng islaw 50%, rhaid i'r awdurdod lleol roi rhybudd ysgrifenedig i'r gymdeithas a pherchennog y safle nad yw'r gymdeithas bellach yn Gymdeithas Trigolion Gymwys
- pan fo mwy nag un preswilydd mewn un cartref, yr aelod o'r gymdeithas yw pa bynnag un y mae'r trigolion yn cytuno y dylai fod yn aelod. Os na allant cytuno, y sawl y mae ei enw yn ymddangos gyntaf ar y cytundeb ysgrifenedig fydd yr aelod
- Ystyrir bod unrhyw achos o ddatgelu'r rhestr o aelodau'r gymdeithas i'r cyhoedd yn torri Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Fodd bynnag, caiff awdurdod lleol ddatgelu manylion Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd Cymdeithas Trigolion Gymwys er mwyn helpu i sicrhau tryloywder.

**Sut y mae'r Gymdeithas Trigolion Gymwys yn ceisio cydnabyddiaeth yr awdurdod lleol?**

Dylai'r gymdeithas ysgrifennu at yr awdurdod lleol yn nodi sut y mae'n bodloni'r meini prawf uchod gan ofyn iddo gydnabod y Gymdeithas Trigolion Gymwys, yn ysgrifenedig, ac anfon cadarnhad at yr Ysgrifennydd.

**Beth fydd yn digwydd os na fydd yr awdurdod lleol yn ymateb neu os nad yw'n cydnabod y gymdeithas?**

Dylai'r gymdeithas gyflwyno cwyn i'r awdurdod lleol perthnasol ynglŷn â'r cais. Mae gan Awdurdodau Lleol eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer cwynion, a bydd modd iddynt ddweud wrthynt sut i gyflwyno cwyn. Os na chaiff y mater ei ddatrys, dylid cyflwyno'r gŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dylai'r gymdeithas fod yn barod i ddangos digon o dystiolaeth i brofi ei bod yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol.

Beth fydd yn digwydd os nad yw'r awdurdod lleol yn cytuno â chyfansoddiad y gymdeithas?

Mae'r ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i Gymdeithas Trigolion Gymwys lunio cyfansoddiad; nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo. Fodd bynnag, mae'r Independent Park Home Advisory Service, National Association of Park Home Residents, British Holiday & Home Parks Association, a National Park Homes Council, ar y cyd, wedi llunio templed addas ar gyfer cyfansoddiad. Cysylltwch â nhw i gael copi o'r templed; mae'r manylion cyswllt isod. Trwy ddefnyddio'r templed hwn bydd perchennog y safle'n llai tebygol o wrthwynebu.

#### Independent Park Home Advisory Service

Rhif ffôn: 0800 612 8938  
E-bost: [info@iphas.co.uk](mailto:info@iphas.co.uk)  
Gwefan: [www.iphas.co.uk](http://www.iphas.co.uk)

#### National Caravan Council

Rhif ffôn: 01252 318251  
E-bost: [info@thencc.org.uk](mailto:info@thencc.org.uk)  
Gwefan: [www.thencc.org.uk](http://www.thencc.org.uk)

#### National Association of Park Home Residents

Rhif ffôn: 01903 816 247  
E-bost: [bjdoick@btinternet.com](mailto:bjdoick@btinternet.com)  
Gwefan: [www.naphr.org](http://www.naphr.org)

#### British Holiday & Home Parks Association

Rhif ffôn: 01452 526911  
E-bost: [enquiries@bhpha.org.uk](mailto:enquiries@bhpha.org.uk)  
Gwefan: [www.bhpha.org.uk](http://www.bhpha.org.uk)

Beth fydd yn digwydd os nad yw Cymdeithas Trigolion Gymwys, sydd wedi ei chydabod gan yr awdurdod lleol, yn bodloni'r meini prawf mwyach?

Os yw Cymdeithas Trigolion Gymwys yn peidio â bodloni'r meini prawf a restrir uchod, ni ellir ei hystyried yn Gymdeithas Trigolion Gymwys. O ganlyniad, ni fydd yr hawliau ymgynghori a nodir isod sy'n gysylltiedig â bod yn Gymdeithas Trigolion Gymwys yn berthnasol. Caiff perchennog safle, os yw'n dymuno gwneud hynny, drafod trefniadau gweithredu a rheoli'r safle gyda'r gymdeithas, ond ni fydd dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

Beth fydd yn digwydd pan fo perchennog newydd gan y safle?

Pan fydd perchennog newydd i'r safle, nid oes angen i Gymdeithas Trigolion Gymwys ofyn am gydnabyddiaeth newydd gan yr awdurdod lleol gan nad yw ei statws wedi newid.

Pa ddogfennau all perchennog safle ofyn i'w gweld?

Mae'n rhesymol i berchennog y safle ofyn am gael gweld y cyfansoddiad, rheolau'r gymdeithas a rhestr o'r aelodau er mwyn bod yn siŵr bod y gymdeithas yn cydymffurfio â'r meini prawf statudol. Nid oes hawl ganddo i

weld cofnodion cyfarfodydd, er enghraifft, nac i ymyrryd mewn unrhyw fodd â'r ffordd y caiff y gymdeithas ei gweithredu.

## **Hawliau'r Gymdeithas Trigolion Gymwys**

### **Pa hawliau sydd gan Gymdeithas Trigolion Gymwys?**

Rhaid i berchennog safle ymgynghori â Chymdeithas Trigolion Gymwys ynglŷn â materion sy'n ymwneud â threfniadau gweithredu a rheoli'r safle, neu welliannau iddo, a allai effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar drigolion y safle.

Mae'r rheolau ar gyfer ymgynghori â'r Gymdeithas Trigolion Gymwys yn nodi ei bod yn ofynnol i'r perchennog:

- roi o leiaf 28 diwrnod cyfan o rybudd ysgrifenedig i'r Gymdeithas Trigolion Gymwys ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer gweithredu, rheoli neu wella'r safle
- disgrifio'r newidiadau a gynigir a sut y gallent effeithio ar berchennogion y cartrefi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn yr hirdymor neu'r tymor byr
- ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y Gymdeithas Trigolion Gymwys cyn bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

## **Cymdeithasau Trigolion nad ydynt yn gymwys**

### **A ganiateir i gymdeithasau trigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Cymdeithas Trigolion Gymwys barhau/gael eu sefydlu?**

Caniateir i gymdeithasau trigolion sydd eisoes yn bodoli barhau, neu caniateir sefydlu un newydd er nad yw'r meini prawf uchod wedi eu bodloni. Mae cymdeithasau trigolion yn aml yn rhai anffurfiol ac mae llawer yn cyflawni sawl swyddogaeth, er enghraifft fel clwb cymdeithasol.

Un o'r newidiadau a gyflwynir yn Neddf 2013 yw bod yr hawliau ymgynghori a nodir uchod sy'n gysylltiedig â bod yn Gymdeithas Trigolion Gymwys yn berthnasol i holl berchnogion cartrefi symudol ar y safle. Buddion cymdeithas trigolion gymwys yw y gall un llais gynrychioli'r perchnogion cartrefi i gyd, a hwnnw'n llais mwy effeithiol i drigolion y safle. Hefyd, rhaid i berchennog y safle ymgynghori â'r perchnogion cartrefi symudol ynglŷn â gwelliannau a allai olygu newid i ffi'r llain.